CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Gweithiwr Cryfhau Teuluoedd | **Gwasanaeth / Adain:** | SCE, Gwasanaeth Pobl Ddiamddiffyn, Tîm Cryfhau Teuluoedd |
| **Lleoliad:** | Coed Pella | **Yn atebol i:** | Jacqui Henson-Cubie/ Tesni Hadwin |
| **Graddfa:** | Cyflog Byw Cenedlaethol | | |

## Pwrpas y Swydd:

Mae'r lleoliad gwaith hwn yn cynnig cyflwyniad i weithio mewn tîm cymorth cymdeithasol i helpu unigolion a theuluoedd yn y gymuned. Byddwch yn cefnogi gweithwyr therapiwtig drwy helpu i baratoi pecynnau ac adnoddau gweithgareddau, helpu â thasgau gweinyddol syml, a mynychu ymweliadau teulu â staff o bryd i'w gilydd i arsylwi a dysgu. Mae'n gyfle gwych i ddatblygu hyder, sgiliau cyfathrebu a deall sut gall timau gofal cymdeithasol wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau – Penodol i'r Swydd

| | |
|---|---|
| 1. | Cefnogi gweithwyr therapiwtig drwy baratoi pecynau gweithgareddau, taflenni gwaith, ac adnoddau eraill a ddefnyddiwyd yn ystod ymweliadau a sesiynau teuluoedd. |
| 2. | Cefnogi'r tîm gyda thasgau gweinyddol sylfaenol megis llungopïo, ffeilio a chofnodi data. |
| 3. | Helpu i baratoi deunyddiau neu adnoddau ar gyfer gweithgareddau neu gyfarfodydd cymunedol. |
| 4. | Cynorthwyo gyda gosod neu dacluso deunyddiau ar gyfer gweithgareddau grŵp, neu sesiynau un i un. |
| 5. | Mynd i gyfarfodydd tîm a chymryd nodiadau pan fo'r angen. |
| 6. | Cynorthwyo gyda gwaith ymchwil syml neu gasglu gwybodaeth. |
| 7. | Dysgu sut i ddefnyddio systemau a phecynnau sylfaenol Office. |
| 8. | Cysgodi aelod o'r tîm er mwyn dysgu sut maent yn cefnogi unigolion a theuluoedd. |
| 9. | Cymryd rhan mewn hyfforddiant er mwyn cynyddu dealltwriaeth o waith y tîm. |
| 10. | Dilyn canllawiau diogelu, cyfrinachedd, ac iechyd a diogelwch bob amser. |

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

| Dyletswyddau a Chyfrifoldebau – Corfforaethol | |
|---|---|
| 1. | Meithrin perthnasoedd da yn fewnol ac yn allanol, a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. |
| 2. | Dilyn Polisïau a Gweithdrefnau'r Awdurdod. |
| 3. | Cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, gan sicrhau amgylchedd gwaith parchus a chefnogol. |
| 4. | Ymgymryd â thasgau neu ddyletswyddau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd eich Rheolwr Atebol. |

## MANYLION AM YR UNIGOLYN

**Sylwch:** Er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, mae'n **rhaid** i chi ddangos eich bod yn bodloni **pob un** o'r meini prawf H - Hanfodol, oni nodir yn y golofn "Sut y caiff ei brofi" mai yn y Cyfweliad neu drwy Brawf neu Gyflwyniad yn unig y bydd y gofynion yn cael eu profi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym yn eich cais sut rydych chi hefyd yn bodloni unrhyw feini prawf Dymunol.

| Gofynion | Sut y caiff ei brofi | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau a Phrofiad** | | | |
| Sgiliau llythrennedd a rhifedd cyffredinol da. | Ffurflen Gais | H | |
| Nid oes angen cymhwyster ffurfiol, serch hynny, mae diddordeb brwd yn eich dewis/dewisiadau lleoliad yn bwysig. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | | |
| Gallu dilyn cyfarwyddiadau a gofyn am help pan fo'r angen. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Sgiliau cyfathrebu a gwrando da. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrinachedd. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | | D |
| Gallu gweithio gydag aelodau'r tîm a thrin aelodau'r cyhoedd yn gyfeillgar a chwrtais. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Gallu defnyddio TG yn hyderus e.e. Outlook, Microsoft Excel, Word. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Mae gallu cyfathrebu yn Saesneg yn hanfodol. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg ar lefel 1 ar gyfer siarad / ysgrifennu / darllen yn hanfodol / dymunol. Cliciwch yma i weld y canllawiau ar gyfer y lefelau. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad<br>Prawf yn y cyfweliad | H | |
| **Rhinweddau Personol** | | | |
| Agwedd bositif ac agored i adborth. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Prydlon a dibynadwy. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Parodrwydd i ddysgu ac i roi cynnig ar dasgau newydd. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| **Gofynion Eraill** | | | |
| Parodrwydd i gwblhau unrhyw hyfforddiant gofynnol. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Hyblyg ac yn gallu gweithio yn unol â gofynion gwaith y tîm. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| **Safle Gweithredwr Cychod dan Hyfforddiant**<br>Gallu nofio heb gymorth ac yn ddigon ffit yn gorfforol i basio prawf meddygol ML5 a gweithio mewn dŵr agored.<br>*(Mae ML5 yn dystysgrif meddygol ddomestig y mae morwyr neu bysgotwyr ei hangen i brofi eu bod yn feddygol ffit i weithio'n ddiogel ar y môr)* | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |